Beirniadaeth-2il  Blodyn Papur – Y Gwagle – Cyffionos

Darn eithaf teimladwy yn disgrifio ymweliad â hen gartref y teulu sydd bellach yn wag. Cawn atgofion am y bywyd a fu yno, yr anifeiliaid, y bobl a'r bwrlwm a lenwai'r cartref. Llwydda i gyfleu y tristwch fod y cyfan bellach wedi mynd. Trueni am y gwallau iaith ond mae ymdrech dda yma i greu awyrgylch.

Ffugenw-Blodyn papur

Y Gwagle-Cyffionos

Cyffionos. Hwb y teulu, y lleoliad perffaith am bartïau Nadolig, penblwyddi ac ymuno â'r teulu. Mae dod nôl i'r lle yma fel cerdded nôl i fywyd cyn. Bywyd ble nid oedd angen ei werthu oherwydd 'landlords' farus ac sy'n teimlo dim.
Wrth yrru nôl ar hyd y lôn fach dynn, ble gallant deimlo pob craig a thwll ar ein taith. Mae'r gwrychoedd wedi all-dyfu erbyn amser hir, hir iawn. Dwy wal wyrdd a lôn o graig wen. Gwelaf bob giât wedi rhydu, a'r caeau tu ôl iddynt a'u laswellt dros fetr o hyd siŵr o fyd erbyn hyn. Y pwll bach i'r chwith gyda sawl hwyaden fach a'r cyrs yn tyfu'n modrwy o gwmpas y drych clir sy'n crychu a drifftio gyda'r gwynt.
Y drws coch ar ddiwedd y lôn yn ein croesawi ni nôl; ac fel gweda Mam, ffordd hi o wybod mae hi adref. Troi'r car i fyny'r mynydd o ddreif a pharcio'r car. Ar unwaith, mae'r arogleuon, y sŵn, yr atgofion yn rhedeg nôl i chdi. Yr anifeiliaid yn clebran yn y caeau o'n nghwmpas. Y defaid mewn eu grwpiau bychain yn parablu, y ceffylau gwêdd yn taro eu traed ar y glaswelltir a'r gwartheg yn syllu arnom ni heb siw na miw. Mae'r ci-defaid yn ei gwt bach yn gweiddi ac yn rhybuddio unrhyw un sy'n dod i'r drws i adael (dim ots os mae'r ymwelwyr wedi bod yno ers cael eu geni neu ddim). Ei gôt wedi cael ei dorri'n denau ond mewn angen i gael e wedi torri eto, ei dannedd yn bigog ond methu gwneud llawer o ddamwain, ei lygaid yn fywiog ond yn flinedig.
Y tŷ oedd y peth mwyaf rhyfedd i weld eto. Yr adeilad mawr melyn, yng nghalon y fferm. Mae'r drws yn sgrechian ac yn wichlyd, fel mae o hyd wedi. Does dim llawer wedi newid, diolch fyth! Y gegin yn gyntaf, gyda'r stôf a'r sosbenni wedi pentyrru un ar ben y llall. O safbwynt plentyn bach o un mlwydd oed, y sosbenni'n berffaith ar gyfer chwarae'r dryms a rhoi sioe ymlaen ar gyfer Tad-cu ac sy'n eistedd yn ei gadair frown, oren a melyn. Mae'r gwobrau pres o sioeau a chystadlaethau o ddwy genhedlaeth o ddangos ceffylau gwêdd. Pop un wedi rhestru'n berffaith linol ar hyd y wal, un ar ôl y llall. Pob un gyda sglein bach balch arnynt. Ar y bwrdd mawr a'r chwe chadair, dwi bron yn gallu gweld y cinio rhôst dydd Sul arno os rwy'n cau fy llygaid yn dynn, dynn.
Mae'r arogl o atgofion yn aros am oesoedd, pob ystafell gydag atgof gwahanol, gyda phobl wahanol ar adegau gwahanol. Mewn ffordd, roedd popeth mewn ei le eto. Y cadeiriau yn y lle cywir, y teledu yn yr ystafell ganol ar S4C, y blancedi ar y gwelïau yr union sut oedden nhw flynyddoedd yn ôl. Clywaf y sgwrsio o'r anifeiliaid tu fas, dal yn gallu arogli'r glaswelltir ffres a'r gwynt y gwanwyn yn rholio fewn o'r traeth, dim ond cwpl o filltiroedd o'r fferm.
Mas yn yr ardd, hoff le Mam-gu, ble fydd y blodau mewn eu grwpiau wedi lleoli'n ddotiog ar hyd yr ardd: pinc, porffor, coch, glas, melyn. Pob un a'u harogleuon arbennig, unigryw. Mae sŵn y gwenyn yn canu a dawnsio o gwmpas yr aer, yn symud a siglo ar y dail pob blodyn a'r pili-pala mawr yn yfed o'r paill rhosyn pinc. Wrth ymyl y giât, mae'r carafan sydd heb symud safle ers 1980. Ei siâp fel bocs mawr fetel, gyda'r manylion arferol o'r 70au: llinellau oren a

melyn. Hyfryd. Y tu fewn pob tro yn arogli fel mae wedi cael ei wrthod o unrhyw fath o lanhau ers oesoedd. Ar y bwrdd bach mae planhigion Mam-gu yn eistedd yn eu potiau bach oren yn amsugno'r golau'r haul sy'n cwympo trwy'r llenni.

Mae pob ystafell gydag atgof gwahanol, gyda phobl wahanol ar adegau gwahanol. Mae hynny heb newid. Yr unig beth sydd wedi newid yw'r distawrwydd sydd yno nawr. Y blodau yn yr ardd wedi marw, yr anifeiliaid wedi cael eu gwerthu a'r ci-defaid gyda pherchennog newydd.

Rwy'n sefyll tu allan i'r tŷ, unwaith eto. Mae'r paent bron a darfod erbyn hyn, y ffenestri yn llawn gwe pry cop a chardfwrdd. Mae'r tu fewn yn edrych yn unig eto. Ond mae'r gadair Tad-cu dal yn eistedd yng nghanol y gegin. Fy hoff atgof. Cyffionos.